

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via Video Conference, Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Gareth Davies, Meirick Davies, Gwyneth Ellis, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James (Cadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston (Is-gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams a Mark Young

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymuneday (NS); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Pennaeth Cyllid a Swyddog Eiddo/ Adran 151 (SG); Prif Gyfrifydd (RWE), Gweinyddwr Zoom (RTJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Ann Davies, Joe Welch, David Williams a/ac Emrys Wynne

Ar y pwynt hwn talodd y Cadeirydd, y Cyngorwyr Alan James, deyrnged i'r cyn Gyngorwyr, Lloyd Williams a fu farw'n ddiweddar. Soniodd y Cyngorwyr James am ymroddiad y Cyngorwyr Williams i'r cyngor a'i waith caled. Cynhaliwyd myfyrdod tawel er parch.

Fe dalodd y Cyngorwyr Gwyneth Kensler deyrnged hefyd i Nancy Fletcher Williams a fu farw ar 3 Ionawr 2022 a oedd yn gyn Gyngorwyr a fu'n cynrychioli'r Rhyl.

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Ann Davies, Joe Welch, David Williams a/ac Emrys Wynne

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

## **Cwestiwn i'r Cyngor Llawn gan y Cyngorydd Rhys Thomas**

“Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr eu bod am lacio rheolau mewnfudo ar gyfer gweithwyr gofal tramor. Yna cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai'r mesurau hyn yn dod i rym yn gynnar y flwyddyn nesaf ac yn gweithredu am 12 mis.

Rydym ni oll yn ymwybodol o'r diffyg sylweddol o weithwyr gofal yn Sir Ddinbych, felly a yw'r Aelod Arweiniol yn ymwybodol o'r newidiadau hyn ac a ydynt wedi dod i rym yn lleol”?

### **Ymateb gan yr Aelod Arweiniol, y Cyngorydd Bobby Feeley:**

Rydym yn ymwybodol o'r newidiadau hyn sydd i'w croesawu. Yn lleol yma yn Sir Ddinbych, rydym hefyd yn ymwybodol o'r dyfarniad newydd ac yn cefnogi darparwyr sy'n awyddus i wneud y mwyaf o gyfleoedd i recriwtio gweithwyr gofal yn unol â llacio rheolau mewnfudo gan Lywodraeth y DU. Yn wir, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y bydd gweithwyr gofal, cymorthyddion gofal a gweithwyr gofal cartref yn gymwys ar gyfer fisa iechyd a gofal am gyfnod o 12 mis. Golyga hyn y byddwn yn gallu recriwtio gweithwyr gofal ychwanegol er mwyn hybu gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion a ddylai ei gwneud yn haws ac yn fwy sydyn i gyflogwyr gofal cymdeithasol recriwtio gweithwyr cymwys er mwyn llenwi'r bylchau.

Mae pandemig y coronafeirws wedi amlygu ystod o brinder staff yn y sector gofal cymdeithasol, gan roi pwysau ar y gweithlu presennol er gwaethaf ymdrechion anhygoel a diflino staff gofal cymdeithasol. Er fy mod yn siŵr bod fy llythyr i'r Prif Weinidog a anfonwyd ar eich rhan wedi helpu rhywfaint, mae'n rhaid dweud fod y newidiadau i'r ddeddfwriaeth hefyd yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo i wneud gweithwyr gofal a gofalwyr cartref yn gymwys ar gyfer fisa iechyd a Gofal ac i ychwanegu'r alwedigaeth i'r rhestr galwedigaethau gweithwyr medrus. Ar y pryd, roedd yr ymateb gan Lywodraeth y DU a rannais gyda chwi oll yn eithaf siomedig, ond yn fuan wedyn mae'n ymddangos ein bod wedi derbyn y canlyniad roeddem ei eisiau. Yn amlwg, ni fydd hyn yn datrys y broblem dros nos, ond mi fydd o gymorth, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny.

## **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Rhagfyr 2021.

### Cywirdeb

Eitem 9 – Rhybudd o Gynnig – nododd y Cyngorydd Gwyneth Kensler y dylai ddweud “Cynigiodd y Cyngorydd Graham Timms fod y cwestiwn yn cael ei roi”.

### Materion yn Codi

Y Cyngorydd Arwel Roberts – Deiseb ynglŷn â: Ffordd Abergele, Rhuddlan. Roedd ymateb wedi ei dderbyn ond nid yr un yr oeddwn ei eisiau. Gobeithio y byddant yn ail ystyried y sefyllfa gan fod pobl ag anableddau yn byw ar hyd y ffordd

honno ac mae'n rhaid iddynt deithio'n bell dim ond i groesi'r ffordd honno. Mae'n rhaid i ni gofio am bobl sy'n llai ffodus na ni ein hunain sydd mewn cadeiriau olwyn ac felly, gobeithio, fe fydd y Cyngor Sir a Swyddogion yn edrych ar y mater eto.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

## 5 CYLLIDEB 2022/23 - CYNIGION TERFYNOL<0}

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad y Gyllideb 2022/23 – Cynigion Terfynol (a ddsbarthwyd eisoes).

Roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel Treth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Derbyniodd y cyngor y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ar gyfer 2022/23 ar 21 Rhagfyr ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o 9.2% a oedd yn cymharu â'r cyfartaledd o 9.4% i Gymru. Disgwyliwyd y Setliad Terfynol ar 1 Mawrth ond mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi nodi na fydd yna lawer o newidiadau.

O fewn y ffigur a gyhoeddwyd nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o gyfrifoldebau newydd, nad oes gan bob un ohonynt symiau canlyniadol clir yn y data. Mae'r disgwyliadau sydd angen eu hariannu yn cynnwys y canlynol:

- Yr holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu, sydd wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw;
- Y cyfrifoldeb i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'n Gofal Cymdeithasol ein hunain a Gofal Cymdeithasol y sector preifat.
- Y costau gweithredol craidd mewn cysylltiad â'r Cydbwyllgor Corfforedig newydd; a
- Lliniaru ar gyfer y ffaith y bydd y Gronfa Caledi Covid yn dod i ben o ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae setliad drafft LIC yn cynnwys codiadau setliad cyfartalog dangosol o 3.5% ar gyfer 2023/24 a 2.4% ar gyfer 2024/25 (ffigyrau amcangyfrifedig CSDd fyddai 3.3% a 2.2%). Er y caiff hyn ei groesawu o safbwynt cynllunio, mae'n dangos y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o'r setliad roedd yna "drosglwyddiadau i mewn" o £0.275m sydd wedi eu trosglwyddo i'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel yn y blynyddoedd blaenorol:

- Ffioedd Clwyd ar gyfer Ailgyrchu Gwastraff Rhanbarthol £0.109m
- Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol: £0.166m.

Roedd y cynigion terfynol i fantoli cyllideb 2022/23 yn cael eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1.

Roedd y pwysau a nodwyd yn creu cyfanswm o £17.628m. Byddai angen setliad drafft o tua 11% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Roedd y setliad net +9.2%

yn cynhyrchu refeniw ychwanegol o £15.005m gan adael bwlch cyllido o £2.623m. Roedd yr eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwlch:

- Roedd Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd a oedd yn cynyddu incwm allanol o £0.120m;
- Roedd arbedion effeithlonrwydd gweithredol o £0.634m wedi'u nodi a oedd o fewn cyfrifoldeb dirprwyedig y Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol (gweler Atodiad 2 yr adroddiad am grynodedb fesul categori);
- Ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion.
- Argymhellwyd bod Treth y Cyngor yn cynyddu o 2.95% a fydd, ynghyd â mân newidiadau i Sylfaen Treth y Cyngor, yn creu refeniw ychwanegol o £1.869m.

Roedd hyn yn cymharu â chynnydd y flwyddyn flaenorol o 43.8% a 4.3% y flwyddyn cyn hynny.

Cadarnhaodd Swyddog Adran 151 fod gwaith wedi ei wneud gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ar gyfer ymagwedd ar y cyd a CLILC mewn perthynas â dyraniad ar gyfer cyflog a'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn lleoliadau Gofal Cymdeithasol. Nododd y Swyddog Adran 151 hyn i sicrhau aelodau mewn perthynas â'r ffigyrau o fewn yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington bryder pe byddai treth y cyngor yn cael ei godi o 2.95% a chododd y pwynt fod tua £14m y flwyddyn ar gyfer gwasanaethu benthyciadau ar gyfer prosiectau'r cyngor. Hefyd cyfeiriodd y Cynghorydd Penlington at ymarfer sganio'r gorwel ar gyfer gwaith cyfalaf a holodd ynglŷn â beth oedd y gwaith cyfalaf, beth fyddai cost y gwaith ac a fyddai yna ragor o ddyledion o ganlyniad i'r gwaith.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol drwy gadarnhau fod cynnydd o 2.95% yn nhreth y cyngor yn ffigwr realistig y gellid ei gyflawni a gallai hynny ddarparu'r lefel o wasanaethau a ddisgwyliwyd gan breswylwyr Sir Ddinbych. Roedd yna ffigwr pwysig a oedd o fewn y gyllideb ar gyfer gwasanaethu gwariant cyfalaf hanesyddol. Roedd hynny ar gyfer ystod o bethau ar gyfer ysgolion, polisiâu llifogydd ayb a gaiff eu gweithredu gan y cyngor ac mae rhai o'r rheiny yn mynd yn ôl gryn amser gan eu bod fel arfer yn cael eu talu dros gyfnod o 25 mlynedd. Gyda phrosiectau adeiladu, weithiau maent yn mynd y tu hwnt i'r amser a nodwyd ac uwchlaw'r gyllideb, ond fe wneir popeth bob amser i leihau'r effaith yn nhermau hynny.

Yn nhermau ymarfer sganio'r gorwel, yng Ngweithdy'r Gyllideb ym mis Gorffennaf gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Aelod Arweiniol Cyllid, yn nhermau cyfalaf, gofynnwyd i wasanaethau beth oeddent yn credu y byddent eu hangen yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. Daeth y rhestr i tua £180m, swm na allai Sir Ddinbych ei ddiwallu, ond roedd yn rhoi syniad o raddfa'r hyn fyddai ei angen yn y dyfodol. Byddai angen Achos Busnes ar bob cynllun unigol a byddai rhaid iddynt fynd trwy'r broses fewnol cyn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Byddai rhai o'r cynlluniau

hynny yn gofyn am elfen o gyllid gyda pheth cyllideb wedi ei ddyrannu i fodloni hynny.

Cododd y Cynghorydd Glenn Swingler y ffaith fod costau byw ar ei uchaf ers dros 30 mlynedd. Roedd y mynegai prisiau manwerthu yn 7.5%. Roedd prisiau Nwy a Thrydan yn cynyddu ac roedd disgwyl iddynt godi 50% arall. Roedd prisiau bwyd yn cynyddu a byddai taliadau Yswiriant Gwladol uwch yn cael eu cyflwyno. Roedd yr arian gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor yn uwch na'r disgwyl a oedd i'w groesawu. Fodd bynnag, roedd gan Gyngor Sir Ddinbych gyllideb uwch na £200m. Gan y byddai'r costau cynyddol yn gorfodi hyd yn oed mwy o unigolion Sir Ddinbych i dlodi, i golli eu cartrefi, i fod angen prydau ysgol am ddim, cael mynediad i fwy o ofal iechyd, gyda theuluoedd yn chwalu ayb, byddai hynny yn y pendraw yn costio llawer mwy o arian i'r cyngor.

Ar y pwynt hwn CYNIGIODD y Cynghorydd Glenn Swingler na ddylai Cyngor Sir Ddinbych gynyddu Treth y Cyngor ar gyfer 2022/2023. Cynigiwyd hyn o ganlyniad i'r caledi yr oedd pobl Sir Dinbych yn ei brofi ar hyn o bryd gan y byddai'r cynnydd yng nghostau byw yn achosi anawsterau ariannol i lawer o bobl.

EILIODD y Cynghorydd Gwyneth Ellis y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Swingler am gynnydd o 0% yn Nhreth y Cyngor.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynghorydd Thompson-Hill, i'r Cynghorydd Swingler gan egluro y byddai cynnydd o 2.95% yn nhreth y cyngor yn darparu incwm o £1.723m. Byddai angen cynlluniau gan y Cynghorydd Swingler ynglŷn â pha rai o'r pwysau £17m na fyddai'n cael eu diwallu neu pa wasanaethau fyddai'n cael toriadau gwerth £1.723m.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, Gary Williams, wrth aelodau y byddai angen iddynt drafod y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Swingler. Yn dilyn y drafodaeth, byddai pleidlais yn cael ei chynnal ar y gwelliant ac wedyn byddent yn mynd yn ôl at yr argymhellion cadarn o fewn yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Swingler bryder eto yn ymwneud â'r pwysau ariannol sy'n cael ei roi ar y bobl sy'n gweithio yn Sir Ddinbych ac ailadroddodd na ddylai Cyngor Sir Ddinbych gyflwyno unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor am flwyddyn.

Mynegodd yr Aelod Arweiniol Cyllid a'r Swyddog Adran 151 bryder gan y byddai yna fwch yn y gyllideb pe na fyddai yna gynnydd yn nhreth y cyngor. Nodwyd fod angen cyllideb gytbwys ac na fyddai'r cynnydd yn creu cyllideb gytbwys. Byddai angen i'r Cynghorydd Swingler ddangos pa bwysau na fyddai'n cael eu hariannu ac ym mha feysydd y byddai yna doriadau i'r gwasanaeth i fodloni'r swm o incwm a gollir. Cadarnhawyd hefyd gan swyddogion y byddai angen i drafodaethau gael eu cynnal gyda gwasanaethau yn ymwneud ag arbedion posibl. Fe fyddai amser yn fater gan fod angen cyllideb gytbwys cyn diwedd y flwyddyn ariannol a byddai hyn yn achosi problemau i'r holl wasanaethau o fewn y sir.

Nododd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y byddai'r Aseiad o Effaith ar Les yn ystyried y colli incwm a'r cynnydd mewn costau byw gan y byddai hyn yn cael effaith

negyddol ar iechyd a lles meddyliol pobl o fewn y sir. Yn y cyswllt hwn cwestiynodd pam y byddai'r effaith yn niwtral.

Ymatebodd y Swyddog Adran 151, Steve Gadd, fod asesiadau bob amser yn anodd o ganlyniad i'r prif reswm dros yr asesiad o effaith niwtral tra'n cydnabod y byddai unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor yn cael effaith ar gyllidebau unigol. Yng Nghymru roedd Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a oedd yn golygu nad oedd y bobl fwyaf diamddiffyn a'r rhai ar fudd-daliadau yn talu treth y cyngor ac felly roedd rhaid cydbwysu hynny gyda gwir ddarpariaeth y gwasanaethau a gaiff eu darparu i bawb yn Sir Ddinbych. Yn Lloegr, er enghraifft, nid oedd Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn bodoli, ond gan ei fod yn bodoli yng Nghymru, roedd yn cynnig amddiffyniad i'r rhai a fyddai'n ei chael yn anodd i dalu. Roedd yn broses anodd i wneud yr asesiad o effaith ar les ar rywbeth penodol sy'n helpu i ariannu pob un gwasanaeth yn y cyngor. Heb dreth y cyngor ni fyddai ysgolion yn cael eu hariannu, ni fyddai modd ariannu gofal cymdeithasol, ac ni fyddai modd ariannu pob gwasanaeth yn y cyngor. Roedd yn broses anodd iawn ond mae'r ddwy ochr wedi eu cynnwys yn yr Asesiad o Effaith ar Les gan Swyddogion.

Nododd y Cynghorydd Gwyneth Ellis ei bod yn gwerthfawrogi fod gwneud yr asesiad o effaith ar les yn anodd ond o dan Sir Ddinbych iachach dylid ystyried lles emosiynol a meddyliol pobl. Roedd y cynnydd yn nhreth y cyngor yn mynd i gael effaith ar les emosiynol a meddyliol pobl a chredai'r Cynghorydd Ellis, yn ei barn hi, ei fod yn anghywir na fyddai'n cael ei ystyried yn yr adroddiad.

Nododd y Swyddog Adran 151 os oedd y bleidlais ar y gwelliant yn cael ei dderbyn gan nad oedd yna gyfres o gynigion y gellir eu derbyn yn ystod y cyfarfod, yna ni fyddai yna gyllideb gytbwys. Pe byddai un rhan o'r gyllideb yn cael ei diddymu yna ni fyddai cynigion y gyllideb yn ddilys. Nododd hefyd pe byddai'r gwelliant yn cael ei ganiatáu, ni fyddai aelodau yn gallu pleidleisio ar y gyllideb gan na fyddai'n gyllideb gytbwys.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd tra gallai pleidlais gael ei chymryd ar y gwelliant, a phe byddai'n cael ei dderbyn, byddai'n newid yr argymhelliad, byddai rhaid rhoi ystyriaeth wedyn i'r argymhelliad fel y mae wedi ei basio. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oedd yna unrhyw awgrymiadau yn cael eu cyflwyno i ariannu'r bwlch y byddai'r gwelliant wedi ei achosi. Roedd gan Aelodau gyfrifoldeb cyfreithiol i osod cyllideb gytbwys na fyddai'n bodoli pe byddai'r gwelliant yn cael ei basio.

Nododd y Prif Weithredwr, Graham Boase, fod cynnydd o 2.95% yn lefel rhesymol o dreth y cyngor yn ei farn ef. Roedd rhaid i'r gyllideb gyfan gael ei hystyried gyda'i gilydd gan ei bod yn anodd i ynysu rhannau penodol o'r gyllideb. Roedd cyllideb gytbwys yn gofyn am gynnydd o 2.95% yn nhreth y cyngor.

Cododd y Cynghorydd Graham Timms bwynt o drefn i gynnig fod y cwestiwn yn ymwneud â'r gwelliant yn cael ei roi i bleidlais. Eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andrew Thomas.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd mai'r gwelliant a gynigiwyd oedd i ddiwygio'r argymhelliad yn yr adroddiad fel y byddai

argymhelliad 3.3 yn nodi “fod y Cyngor yn cymeradwyo cynnydd o 0% ar Dreth y Cyngor ar gyfartaledd”.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington am bleidlais wedi'i chofnodi.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd y byddai angen 7 aelod i gefnogi'r cais am bleidlais wedi'i chofnodi.

Cefnogodd y Cynghorwyr Paul Penlington, Gwyneth Ellis, Gwyneth Kensler, Rhys Thomas, Alan Hughes, Arwel Roberts a Glenn Swingler y cais am bleidlais wedi'i chofnodi ar gyfer y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Glenn Swingler.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies y byddai'n ymatal o'r bleidlais gan ei fod wedi colli rhan helaeth o'r drafodaeth.

Cafwyd pleidlais wedi'i chofnodi, fel a ganlyn:

O BLAID - Y Cynghorwyr Gwyneth Ellis, Alan Hughes, Gwyneth Kensler, Paul Penlington, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas

YN ERBYN – Y Cynghorwyr Alan James, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Gareth Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Brian Jones, Pat Jones, Geraint Lloyd Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Anton Sampson, Peter Scott, Andrew Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams a Mark Young.

YMATAL - Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

O BLAID – 7

YMATAL– 1

YN ERBYN – 33

Felly methodd y gwelliant ac aeth y drafodaeth yn ôl at yr argymhellion gwreiddiol fel y nodir yn yr adroddiad.

Nododd y Cynghorydd Graham Timms y byddai'r setliad a dderbyniwyd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Sir Ddinbych. Yn 2017 roedd y Cynghorydd Timms wedi codi mater talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i holl weithwyr Sir Ddinbych. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, fel roedd y GIG yng Nghymru. Roedd 14 o gynghorau hefyd yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr. Roedd gan Sir Ddinbych gyfrifoldeb i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. O fewn y rhaglen gwaith i'r dyfodol roedd y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor nesaf. Fe ddylai Sir Ddinbych symud ymlaen gyda thalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a galwodd ar yr Aelod Arweiniol Cyllid i ddod yn ôl i'r Cyngor Llawn gyda chynigion ynglŷn â sut y gellid cyflwyno hyn.

Cefnogodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Cynghorydd Timms o ran talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i holl Weithwyr Sir Ddinbych.

Nododd yr Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, ei bod yn llesol i gael setliad cyllideb tair blynedd ar gyfer cynllunio ymlaen llaw.

O ran y Cyflog Byw Gwirioneddol, ni aethpwyd ymlaen â hyn gan nad oedd y dyfarniad cyflog cenedlaethol wedi ei gytuno ac nid oedd modd dod ag adroddiad ymlaen heb gadarnhau dyfarniad cyflog. O safbwynt y goblygiadau o ran yr hyn oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb, roedd yn debygol y byddai holl staff Sir Ddinbych wedyn yn cael eu cynnwys yn yr elfen Cyflog Byw Gwirioneddol.

Nododd y Cynghorydd Meirick Ll Davies y nodwyd ar dudalen 18 o'r pecyn Cymreig, eitem rhif 5, "fod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen...", dylai ddweud "fod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen..."

Ymddiheurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd am y camgymeriad ac roedd mewn gwirionedd yn gywir yn y papurau Saesneg.

Yn nhermau'r Cyflog Byw Gwirioneddol, talwyd y Cyflog Byw Gwirioneddol i holl staff y Cyngor ar adeg y fargen dâl ddiwethaf. Nid oedd y fargen dâl a oedd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2021 yn dal heb ei chytuno'n genedlaethol rhwng y cyflogwyr a'r undebau llafur. Byddai'r cynnig terfynol a oedd wedi ei wneud gan y cyflogwyr wedi golygu y byddai'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn parhau i gael ei dalu i holl staff Sir Ddinbych. Roedd rhai o'r undebau llafur wedi pleidleisio mewn perthynas â gweithredu diwydiannol, nid oedd y bleidlais gan un undeb llafur yn bodloni'r trothwy cyfreithiol yn nhermau'r nifer a bleidleisiodd. Roedd undeb llafur arall yn pleidleisio ar hyn o bryd ac roedd disgwyl cadarnhad gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o Gyflogwyr a'r Undebau Llafur ynglŷn ag a fyddai trafodaethau yn cael eu cwblhau. Byddai'r fargen a gâi ei chynnig wedi golygu y byddai'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn parhau i gael ei dalu i holl staff Sir Ddinbych.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill gymeradwyo'r cynigion i aelodau gymeradwyo Cynigion Terfynol y Gyllideb ar gyfer 2022/2023, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Marston.

Cafwyd pleidlais dros zoom fel a ganlyn:

O BLAID – 33

YMATAL – 3

YN ERBYN – 3

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- (i) Nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2022/2023;
- (ii) Cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, ac y manylir arnynt yn Adran 4, er mwyn cwblhau'r gyllideb ar gyfer 2022/23.
- (iii) Cymeradwyo'r cynnig o gynnydd cyfartalog o 2.95% yn Nhreth y Cyngor.
- (iv) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian a gaiff ei gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 os oes yna symud rhwng y ffigyrau yn y setliad drafft a therfynol er mwyn galluogi gosod Treth y Cyngor yn amserol.



(v) *Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les.*

## **6 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2022/23**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad ar Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2022/2023 (a ddsbarthwyd eisoes).

CYNIGIODD y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i dderbyn Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2022/2023, EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Peter Scott.

Cynhaliwyd pleidlais dros zoom a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** bod,

- *Aelodau yn mabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2022 o ran blwyddyn ariannol 2022/23.*
- *Aelodau yn cymeradwyo'r elfennau dewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.4, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.*

## **AR Y PWYNT HWN (11.55 A.M.) CAFWYD EGWYL O 20 MUNUD AILDDECHREUODD Y CYFARFOD AM 12.15 P.M.**

### **7 RHYBUDD O GYNNIG**

Tynnodd y Cynghorydd Brian Jones y Rhybudd o Gynnig yn ôl.

### **8 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Paul Penlington y Rhybudd o Gynnig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:-

"Fod y cyngor hwn yn rhoi'r dasg i swyddogion i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu ailadeiladu Ysgol Uwchradd Prestatyn yn llawn".

Ar y pwynt hwn fe hysbysodd y Cynghorydd Penlington aelodau ei fod yn dymuno diwygio ychydig ar eiriad y Rhybudd o Gynnig.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd y byddai hyn yn dderbyniol.

Darllenodd y Cynghorydd Penlington y gwelliant fel a ganlyn-

"Mae'r Cyngor hwn yn rhoi'r dasg i swyddogion i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu ailadeiladu Ysgol Uwchradd Prestatyn yn llwyr, wedi ei seilio ar ddyluniadau cynharach a luniwyd ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain

ganrif a oedd yn moderneiddio i ddiwallu anghenion presennol disgyblion uwchradd Prestatyn a'n datganiad argyfwng newid hinsawdd a newid ecolegol".

CYNIGIODD y Cynghorydd Penlington y Rhybudd o Gynnig, EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Glenn Swingler.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts mai'r weithdrefn sydd mewn grym oedd bod y Bwrdd Moderneiddio Addysg yn asesu cyflwr yr holl ysgolion yn Sir Ddinbych ac mai dyma'r broses oedd wedi bod mewn grym ers y 14 mlynedd diwethaf. Roedd dros £2m wedi ei wario ar Ysgol Uwchradd Prestatyn i fynd i'r afael ag ardaloedd brys ac roedd hyn wedi cynnwys adnewyddu labordai, uwchraddio'r system wresogi, ffenestri newydd, toiledau newydd ayb. Byddai'r costau adeiladu safonol ar gyfer ysgol gyfan gwbl newydd ynghyd â chostau carbon net oddeutu £55m. Felly byddai cost yr astudiaeth ddichonoldeb ei hun yn £850,000. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol nad oedd yn ymwybodol o gynlluniau a oedd wedi eu llunio ar gyfer adeilad newydd i Ysgol Uwchradd Prestatyn nac astudiaeth ddichonoldeb yn 2017. Byddai'n cadarnhau gyda swyddogion.

Nododd y Cynghorydd Hilditch-Roberts o ran y ffordd ymlaen, gan ystyried y symiau yr oedd hyn yn ei olygu, ei bod yn bwysig fod gan y cyngor broses i bennu'r drefn flaenoriaeth o ran buddsoddi mewn adeiladau ysgolion. Mae'r broses yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ystyried anghenion priodol yr holl ysgolion i sicrhau yr ymdrinnir â'r rhai sy'n wynebu'r angen mwyaf yn gyntaf. Cynhaliwyd arolwg cyflwr cynhwysfawr o'r holl ysgolion er mwyn nodi'r ysgolion oedd angen gwelliannau. Cynhaliwyd yr arolwg cyn cyflwyno cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B i Lywodraeth Cymru a oedd wedi eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu ar sawl achlysur. Cafodd yr arolwg hwn ei ystyried gan y Bwrdd Moderneiddio Addysg a darparwyd gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth y gallent ei defnyddio i argymhell trefn flaenoriaeth ysgolion a oedd angen gwaith.

CYNIGIODD y Cynghorydd Hilditch-Roberts welliant yng ngoleuni'r Rhybudd o Gynnig fod y Bwrdd Moderneiddio Addysg yn cael cais i adolygu arolygon cyflwr yr holl ysgolion i weld a oeddent wedi eu newid yn sylweddol i gyflwr yr ystâd ysgol a fyddai'n codi'r cwestiwn a yw trefn flaenoriaeth gyfredol yr ysgolion yn parhau yn gyfredol a chywir. Fe allai canlyniad yr adolygiad hwn gael ei adrodd i'r Cabinet yn ogystal ag unrhyw argymhellion allai fod gan y Bwrdd Moderneiddio Addysg o ganlyniad.

EILIODD y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones y gwelliant a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y dylai trafodaeth ddigwydd ar y gwelliant a phe byddai'r gwelliant yn cael ei dderbyn yna byddai hynny'n dod yn Rhybudd o Gynnig a byddai pleidlais ar hynny fel y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol. Os na chytunir ar y gwelliant byddai aelodau'n cyfeirio'n ôl at y Rhybudd o Gynnig fel y cafodd ei gyflwyno gan y Cynghorydd Penlington.

Cefnogodd y Cynghorydd Paul Penlington y gwelliant a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Cynhaliwyd y bleidlais ar y gwelliant a gyflwynwyd gan yr Aelod Arweiniol Addysg, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts dros zoom ac roedd y canlyniad fel a ganlyn -

O blaid – 32  
Ymatal – 0  
Yn erbyn – 5

Cafodd y gwelliant ei dderbyn a daeth yn Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol ac roedd y mwyafrif o blaid, nododd 2 Cynghorydd eu bod yn erbyn (y Cynghorwyr Rhys Thomas a Glenn Swingle) ac ymatalodd 1 Cynghorydd (y Cynghorydd Gwyneth Ellis).

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i'r Bwrdd Moderneiddio Addysg adolygu arolygon cyflwr yr holl ysgolion i weld a oeddent wedi eu newid yn sylweddol i gyflwr yr ystâd ysgol a fyddai'n codi'r cwestiwn a yw trefn flaenoriaeth gyfredol yr ysgolion yn parhau yn gyfredol a chywir. Fe allai canlyniad yr adolygiad hwn gael ei adrodd i'r Cabinet yn ogystal ag unrhyw argymhellion allai fod gan y Bwrdd Moderneiddio Addysg o ganlyniad.*

## **9 RHYBUDD O GYNNIG**

Tynnodd y Cynghorydd Tony Flynn ei Rybudd o Gynnig yn ôl.

## **10 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rachel Flynn y Rhybudd o Gynnig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:-

Nododd y Cynghorydd Flynn fod y Rhybudd o Gynnig wedi ei gyflwyno ar ran Grŵp Trawsbleidiol y Merched o'r Grŵp Merched mewn Gwleidyddiaeth.

“Rydym ni'n gofyn am i Gyngor Sir Ddinbych gymryd safbwynt mwy pendant gyda'i bolisi a'i weithdrefnau achwyniad. Yng ngoleuni'r ddeddf amrywiaeth a chydardoldeb a ddiweddarwyd, rydym ni'n gofyn i'r cyngor ffurfio gweithdrefn fewnol newydd i sicrhau y gellir dwyn ymddygiad cynghorwyr i gyfrif.

Rydym hefyd yn gofyn i'r cyngor adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau ar gyfer adolygu cwynion yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu, yn ymwneud â Chynghorwyr, Swyddogion ac eraill boed yn rhithiol, corfforol neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad

1. Fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd yn edrych ar y broses gwyno gyfredol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.
2. Fod y cyngor yn creu gweithgor amrywiaeth a moeseg i archwilio sut mae'r cyngor yn diogelu a hyrwyddo amrywiaeth a moeseg dda yng Nghymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth o sut mae merched yn dal i gael eu trin yn anghyfartal ac effeithiau casineb at ferched a gwahaniaethu rhywiol ar ferched.

3. Ein bod yn fwy pendant fel cyngor o ran mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol mewn unrhyw fforwm cyngor Cymuned, Tref neu Sir."

CYNIGIODD y Cynghorydd Rachel Flynn y Rhybudd o Gynnig, EILIWYD hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor.

Ymatebodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, drwy ddiolch i'r Cynghorydd Flynn am ddod â'r Rhybudd o Gynnig ymlaen. Fel Aelod Arweiniol Cydraddoldeb ac Arweinydd y Cyngor roedd yn ymrwymedig i sicrhau fod y Cyngor yn ymdrechu yn barhaus i osod Cydraddoldeb yn greiddiol i'r holl waith a gaiff ei wneud. Roedd y Cyngor yn ymrwymedig i amrywiaeth ac roedd wedi gwneud datganiad ym Medi 2021 i ymrwmo i ddod yn gyngor amrywiol a byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd, yn ddiweddarach yr wythnos hon, yn ystyried cynllun gweithredu drafft yn ymwneud â rhai o'r rhwystrau i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Yn nhermau anghydfod rhwng aelodau, byddai dyletswydd gyfreithiol newydd ar Arweinwyr Grŵp yn dod i rym yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad ymhlith eu Grwpiau.

Hefyd, roedd Adolygiad annibynnol Penn yn ddiweddar o'r fframwaith moesegol yng Nghymru wedi adrodd i Lywodraeth Cymru ac wedi gwneud argymhellion yn ymwneud â'r defnydd o gwmpasiad o brosesau datrysiad lleol. Roedd disgwyl ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad, a manylion unrhyw gynigion i newid canllawiau a/neu ddeddfwriaeth o ganlyniad.

Ymatebodd y Cynghorydd Hugh Evans i'r argymhellion a gâi eu cynnwys o fewn y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn -

1. Mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at y broses datrysiad lleol a ddefnyddir i geisio datrys materion rhwng aelodau o'r Cyngor Sir ar sail anffurfiol heb yr angen i gynnwys yr Ombwdsmon.  
Cytunodd y Cynghorydd Evans y dylai fod yna adolygiad o'r broses. CYNIGIODD y Cynghorydd Evans fod Gweithgor o aelodau'n cael ei sefydlu i ymgymryd ag adolygiad o waith gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i ddatblygu proses addas yng nghyd-destun y ddyletswydd newydd y cyfeiriodd ato, ac unrhyw newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i Adolygiad Penn.
2. Roedd gan y Cyngor, ar un adeg, Grŵp Cydraddoldeb a ddiddymwyd fel rhan o raglen i brif ffrydio materion cydraddoldeb.  
Fodd bynnag, mae yna waith parhaus yn cael ei wneud gan y tîm Gwella Busnes a Moderneiddio i ystyried sefydlu Grŵp Cydraddoldeb a chynigiodd y Cynghorydd Evans y dylai'r gwaith barhau ac y dylid ystyried unrhyw orgyffwrdd rhwng materion cydraddoldeb a'r fframwaith moesegol.
3. Byddai'r Cyngor yn darparu cefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad i Gynghorau Tref a Chymuned ond nid oedd ganddo unrhyw rôl uniongyrchol mewn datrys anghydfod o fewn y Cynghorau hynny ac eithrio drwy'r Ombwdsmon a'r Pwyllgor Safonau.  
Fel aelodau, dylai pawb gofio eu cyfrifoldebau i drin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth ac y byddai pawb yn herio ymddygiad annerbyniol pan welir hynny.

Yr adolygiad o'r broses datrys lleol fyddai'r mecanwaith priodol i ystyried pa newidiadau fyddai angen eu gwneud yng nghyd-destun y ddyletswydd newydd ar Arweinwyr Grŵp ac Adolygiad Penn.

CYNIGIODD y Cynghorydd Hugh Evans y gwelliannau canlynol i'r argymhellion fel a ganlyn—

**Argymhelliad 1** – Fod Grŵp o aelodau yn cael ei sefydlu i weithio gyda'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau i adolygu'r broses datrys lleol presennol a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'w mabwysiadu.

**Argymhelliad 2** – Fod Swyddogion yn gweithio i sefydlu cynigion ar gyfer Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynnwys cylch gorchwyl priodol.

**Argymhelliad 3** - Fod y Cyngor yn gweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu cefnogaeth a chymorth o fewn cyd-destun y fframwaith moesegol presennol ac unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i Adolygiad Penn.

EILIODD y Cynghorydd Mark Young y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Hugh Evans.

Cafodd pleidlais ei chynnal a chymeradwyodd y mwyafrif o aelodau'r gwelliannau gydag un bleidlais yn erbyn y gwelliant.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd gan fod y gwelliant wedi ei dderbyn, hwn nawr oedd y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol a byddai pleidlais yn cael ei chynnal ar y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

Cynhaliwyd pleidlais a chymeradwyodd y mwyafrif o aelodau'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol gydag un bleidlais yn erbyn (y Cynghorydd Gwyneth Kensler).

**PENDERFYNWYD:**

- (1) *fod Grŵp o aelodau yn cael ei sefydlu i weithio gyda'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau i adolygu'r broses datrys lleol presennol a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'w mabwysiadu.*
- (2) *fod Swyddogion yn gweithio i sefydlu cynigion ar gyfer Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynnwys cylch gorchwyl priodol.*
- (3) *fod y Cyngor yn gweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu cefnogaeth a chymorth o fewn cyd-destun y fframwaith moesegol presennol ac unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i Adolygiad Penn.*

## **11 CEFNOGWR POBL IFANC**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd adroddiad Penodi Cefnogwr Pobl Ifanc (a ddsbarthwyd eisoes).

Ar 7 Rhagfyr 2021 penderfynodd y Cyngor greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn unol â'r disgrifiad o'r rôl sydd wedi ei atodi fel Atodiad 1.

Ceisiwyd enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol fel y gallai'r Cyngor ethol aelod i'w benodi fel Cefnogwr Pobl Ifanc.

Enwebodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Cynghorydd Cheryl Williams, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Brian Blakeley.

Enwebodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Cynghorydd Rachel Flynn, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Peter Scott.

Cynhaliwyd pleidlais dros zoom ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn -

Y Cynghorydd Cheryl Williams - 19

Y Cynghorydd Rachel Flynn - 15

Felly,

***PENDERFYNWYD*** penodi'r Cynghorydd Cheryl Williams fel Cefnogwr Pobl Ifanc.

## **12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Sesiynau Briffio'r Cyngor (a ddsbarthwyd eisoes).

Nodwyd ei bod yn arfer arferol i beidio â chynnal Cyngor Llawn yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a oedd i ddechrau ar 18 Mawrth ac, felly, byddai cyfarfod y Cyngor a oedd i gael ei gynnal ar 5 Ebrill yn cael ei ganslo.

14 Mawrth 2022 – roedd Cyngor Arbennig a sesiwn Briffio'r Cyngor i'w cynnal.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Sesiynau Briffio'r Cyngor.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 1.15 P.M.**